

Canlyniadau holiadur Coedwig Parc y Bwlch: Tregarth

Adroddiad o holiadur i bobl Tregarth ynglŷn â Choedwig Parc y Bwlch, gan wirfoddolwyr ifanc o Glwb Ieuenctid Tregarth.

Gan: Llinos, Tomos, Catrin, Gethin, Ffion, Leia, George, Matthew, Fabian, Ben a Helen

Gyda chefnogaeth: Robin, Claire, Gwenlli, Kirsten, Wayne, Jenny, Linda ac Iola

26 Mai 2011



GwirVol



Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

dyfodol

Pam y gwnaethom holiadur am y goedwig

Mae Coetir Mynydd wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiwn Coedwigaeth er mwyn ymgynghori â chymunedau yn yr ardal hon ers nifer o flynyddoedd. Parc y Blwch yw ein coedwig leol, mae'n berchen i Lywodraeth Cymru ac fe'i rheolir gan y Comisiwn Coedwigaeth. Fel y rhan fwyaf o goedwigoedd y Comisiwn Coedwigaeth, mae'n ardal o goed pyrwydd Sitca (spruce) yn tyfu'n glos a blannwyd yn y 1960au, ac mae bellach wedi cyrraedd yr oed lle bydd y coed yn cael eu torri a'u hail-blannu. Mae'r coed yn y goedwig yn cael eu plannu a'u torri yn ôl Cynllun sy'n cael ei adolygu pob pum mlynedd. Pan fydd y cynlluniau hyn yn cael eu diwygio, bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn gwahodd sylwadau a syniadau gan y gymuned leol - fel arfer trwy'r Cyngor Cymuned, ond gall hefyd gynnwys ymgynghori â'r cyhoedd. Daeth y Cynllun ddiwethaf i ben ym mis Mai 2009, ond mae'r cynllun nesaf yn dal heb ei gyhoeddi er mwyn galluogi i'r Comisiwn ymgynghori'n fanwl â'r cyhoedd fel rhan o Astudiaeth Braenaru. Yn 2009 roedd Clwb Ieuenctid Mynydd Llandygai yn llwyddiannus wedi cyflawni arolwg holiadur o bobl Mynydd Llandygai, ond nid oedd hyn yn cynnwys barn pawb oedd yn byw'n agos i'r goedwig. Felly, wedi derbyn cyllid gan GwirVol a'r Comisiwn Coedwigaeth, cynigodd Coetir Mynydd gyfle i ni yng Nghlwb Ieuenctid Tregarth ymgynghori pobl y pentref ynglŷn a'r goedwig. Byddem yn rhannu canlyniadau ein hastudiaeth gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, bydd yn ei defnyddio wrth greu'r Cynllun nesaf ar gyfer Parc y Bwlch.

Cytunon ni wirfoddoli i weithio ar yr arolwg am sawl rheswm:

- dim ond ychydig ohonom ni yn y Clwb Ieuenctid sy'n gyfarwydd â'r goedwig, ac mae hwn wedi bod yn gyfle i gael gwybod mwy amdano;
- roedd yn swnio'n ddiddorol, ac yn rhywbeth i'w wneud
- ac roedd yn gyfle defnyddiol i wirfoddoli.

Beth wnaethom ni?

Asgwrn cefn y prosiect oedd 12 sesiwn efo Robin, Claire a Kirsten o Dyfodol, yn y Clwb Ieuenctid rhwng mis Ionawr a mis Mai 2011, ar nos Iau fel arfer. Yn y sesiynau cychwynnol, gwnaethom ni ddysgu am y goedwig, y Comisiwn Coedwigaeth a thechnegau holiadur. Yna, aethom ati i gynllunio ein holiadur ein hun, a phrintio cannoedd o gopiâu yn Gymraeg a Saesneg. Aethom o amgylch y pentref efo'r holiadur, gan guro ar drysau ac egluro beth oeddem ni'n ei wneud.


Roedd yna bedwar ffordd o ddychwelyd yr holiadur: ei adael trwy'r flwch post i ni ei gasglu'n syth; blwch yn Nhafarn Pant yr Ardd pub, ffonio neu siarad efo un o'r criw, neu ei lenwi ar y we ar SurveyMonkey.

Teipiwyd y wybodaeth a lenwyd ar yr holiaduron, a'i ddefnyddio i greu'r siartiau bar a'r ystadegau yn yr adroddiad hwn. Yna, roeddem yn edrych ar y canlyniadau ac yn chwilio am y negeseuon pwysicaf i'w yrru ymlaen i'r Comisiwn Coedwigaeth. Troesom y syniadau hyn yn gyflwyniad, a gafodd ei ddangos yn y cyfarfod pentref ar y 26^{ain} o Fai 2011. Gwahoddasom y Comisiwn i'r cyfarfod. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi fel cofnod o'r prosiect, a'r hyn rydym wedi darganfod, ar gyfer pawb yn y pentref. Bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol i'r Comisiwn Coedwigaeth hefyd, fel eu bod yn gwybod beth y mae pobl Tregarth yn ei feddwl o'r goedwig.

Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn fan cychwyn, wrth i gymuned Tregarth gymryd mwy o

ddiddordeb a chyfranogiad yn y Goedwig. Mae'n un o dri adroddiad cymunedol a baratowyd ar gyfer Parc y Bwlch, ynghyd ag adroddiadau Mynydd Llandygai a Rhiwlas.


Mae'r map hwn yn dangos ble mae'r goedwig (lliw gwyrdd) o gymharu â Thregarth. Aethom â'r holiaduron i dai ar y lonydd sydd wedi eu lliwio'n goch.



Pwy lenwodd yr holiaduron?

Daeth 51 o holiaduron i law (10 trwy SurveyMonkey). Mae Siart 1 yn dangos faint o holiaduron a lenwyd yn Gymraeg a Saesneg, sy'n dangos i ni gyrraedd nifer o bobl yn y ddwy iaith.


Siart 1: Iaith a ddefnyddiwyd wrth lenwi'r holiadur



Yng nghwestiwn 10, gofynnwyd ni oedd pobl yn wryw neu'n fenyw, a'u hoed. Gofynnwyd ni hyn er mwyn gallu gweld a oedd y canlyniadau'n cynrychioli trawstoriad teg o'r pentref, neu oedd osgo

tuag at un garfan. Mae Siart 2 yn dangos y nifer o bobl a lenwodd yr holiadur.

Siart 2: Oed a rhyw y bobl a lenwodd yr holiadur



At ei gilydd, dychwelwyd 51 holiadur, ond nid oedd pawb wedi nodi eu rhyw a'u hoedran. O'r bobl a atebodd, roedd 19 yn ddynion a 25 yn ferched - dipyn llai na 50% o ddynion felly, fel dylem ddisgwyl yn y rhan fwyaf o lefydd. Yn benodol, roedd diffyg ymateb gan fechgyn 0-14 mlwydd oed, a phrin oedd yr ymateb gan ddynion dros 60. Eto, mae'n bosib mai o'r carfannau yma daeth y 3 holiadur nad oedd yn cynnwys ateb i gwestiwn 10.


Er gwaethaf y problemau hyn, mae'n edrych fel bod gennym trawstoriad da o bobl Tregarth. Mae hyn yn galonogol iawn, a dylai ein canlyniadau fod yn ddibynadwy.

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y prosiect drwy gwblhau holiadur!

Cwestiwn 1: Pa mor aml ydych chi'n ymweld â'r goedwig?

Atebwyd y cwestiwn yma ar bob un o'r 51 holiadur (Siart 3), ac roedd 74% yn dweud eu bod yn ymweld â'r goedwig (yn achlysurol o leiaf).

Siart 1: Pa mor aml ydych chi'n ymweld â'r goedwig?




Wrth gwrs, gall fod pobl sydd â diddordeb yn y goedwig yn fwy tebyg o gwblhau holiadur amdano, felly nid yw 74% o'r pentref cyfan yn ymweld â'r goedwig o reidrwydd. Ond mae 38 yn dal yn nifer da o ymwelwyr, enwedig o gofio ei fod yn dipyn o daith i fyny bryn serth o Dregarth - ac mae'n debyg eu bod yn mynd a pherthnasau a chyfeillion na lenwodd yr holiadur eu hunain efo nhw. Dim ond yn achlysurol bydd y rhan fwyaf yn ymweld â'r goedwig, a chymharol prin yw'r rhai sy'n mynd yno'n aml.

Rydym yn tybed pam y trafferthodd 13 o bobl nad oeddynt yn ymweld â'r goedwig gwblhau'r holiadur. Mae dau ateb posib: gall eu bod eisiau cefnogi gweithgareddau'r Clwb Ieuentid, neu gall eu bod yn dymuno ymweld â'r goedwig ond heb allu wneud hynny. Mae rhai atebion hefyd yn awgrymu fod yna bobl yn Nhregarth nad ydynt yn ymwybodol fod yna goedwig o fewn pellter cerdded – er enghraifft, ysgrifennodd un person “I didn't even know where it was! And I've lived here for 10 years!”

Cwestiwn 2: Yn gyffredinol sut fydddech chi'n disgrifio'r goedwig fel lle i ymweld ag o?

O'r 51, roedd 6 heb ateb y cwestiwn yma, ac 13 yn dweud nad oeddynt byth yn ymweld â'r goedwig. O'r 8 o bobl sydd byth yn ymweld, ond a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 3 yn meddwl ei fod yn 'Ardderchog', 3 'Da' a 2 yn 'Gweddol' fel lle i ymweld ag o. Mae hyn yn awgrymu fod y bobl hyn yn hoffi ymweld â'r goedwig, ond am ryw reswm yn methu gwneud hynny, neu eu bod yn cydnabod gwerth y goedwig i eraill er nad ydynt yn cymryd diddordeb ynddo'n bersonol.




O'r bobl a atebodd, roedd 71% yn meddwl bod y goedwig yn lle da neu ardderchog i ymweld ag ef, ond dim ond traean o'r bobl hyn oedd yn feddwl ei fod yn 'Ardderchog'. O gofio bod Cwestiwn 1 yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl ond yn ymweld â'r goedwig yn achlysurol, mae'r canlyniad hwn yn awgrymu bod pobl yn hoffi'r syniad o goedwig, hyd yn oed os na allant fynd yno'n aml iawn.

Cwestiwn 3: Beth ydych chi'n ei wneud yn y goedwig?

Mae'r cwestiwn hwn yn darparu rhestr o 8 peth y mae pobl yn dod i'r goedwig i'w gwneud, ynghyd â chyfle i nodi awgrymiadau eraill. Gallai pobl ddewis mwy nag un blwch, er enghraifft, gallent fod yn beicio ac yn rhedeg yn y goedwig (ond nid ar yr un pryd fel arfer!). Chart 5 shows the counts of each activity and it is very clear that nearly everyone who visits the forest will go for a walk there (81% of the 38 people who visit the forest). Yn yr holiadur hwn, yr un oedd "mynd am dro" a "mynd â'r ci am dro," ond yn arolwg Mynydd Llandygai, roedd y rhain yn opsiynau gwahanol, ac roedd yn amlwg bod yna wahaniaeth rhwng mynd am dro, boed efo ci neu beidio, a 'mynd â'r ci am dro'.

Ar y cyfan, mae'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd yn cyd-fynd â cherdded: roedd llawer o bobl yn ticio blychau i ddangos eu bod yn aml yn mynd am dro i gael amser tawel i feddwl. Niferoedd cymharol fach sy'n cymryd rhan mewn "chwaraeon" gweithredol yno, megis beicio mynydd, rhedeg a marchogaeth.

Siart 5: Pa mor boblogaidd mae gwahanol weithgareddau




Dim ond un neu ddau o weithgareddau ychwanegol yn cael eu rhestru yn ôl y bobl - sef:
Casglu "llys" pan ddaw'r tymor
Gwyllo adar

Cwestiwn 4: Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am y goedwig?

Beth nad ydych yn ei hoffi?

Roedd hwn yn gwestiwn agored, er mwyn i bobl cael ysgrifennu beth bynnag a fynnon, gan greu canlyniadau diddorol sydd, gwaetha'r modd, yn anodd eu dadansoddi. Aethom ati, felly, i gyfri'r nifer o weithiau bu i bobl defnyddio gair megis "tawel" - gan gymryd po fwyaf caiff gair ei ddefnyddio, po fwyaf defnyddiol ydyw fel disgrifiad o deimladau'r bobl am y goedwig. Mae'r lluniau geiriol isod yn dangos maint y geiriau yn ôl y nifer o weithiau y cawsant eu crybwyll mewn atebion i'r cwestiwn hwn. Hefyd, mae maint y blychau yn cyfateb i'r nifer o "hoff bethau" a "chas bethau" a restrwyd.

Siart 6: Pe bai ... Byddai'r goedwig yn le...




Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl hefyd yn credu y byddai cyfleusterau fel meinciau a biniau sbwriel yn gwella'r goedwig - oherwydd y byddai'n mynd i'r afael â'r broblem sbwriel y soniodd nifer amdano. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn meddwl y byddai hyn yn gwneud y goedwig yn waeth oherwydd gallai wneud i'r goedwig edrych yn fwy fel parc na lle gwylt, a ph'run bynnag, pwy fyddai'n gwagio'r biniau a gwarchod y meinciau rhag cael ei fandaleiddio?

Y newidiadau arfaethedig lleiaf poblogaidd yw'r rhai gyda'r bariau melyn hiraf, sef digwyddiadau cymunedol, traciau beicio mynydd a chysgodfan i gymdeithasu - pethau fyddai'n dod â mwy o bobl i'r goedwig. Mae'r ddau olaf o'r rhain yn bethau a awgrymwyd yn bennaf fel cyfleusterau ar gyfer pobl ifanc, ond mae pobl hŷn yn poeni y byddai hyn yn arwain at fwy o sbwriel, fandaliaeth a swŵn.

Gyda golwg ar gyfleoedd am swyddi yn y goedwig, awgrymodd un ymatebydd y dylid 'rhoi gwaith i gontractwyr lleol i ofalu am goetiroedd' - tybiai y byddai hyn yn gwella'r goedwig. Gall ei fod yn "well" o feddwl ei fod yn cyfrannu at gyfleoedd gwaith yn yr ardal, neu drwy weithio'r goedwig mewn ffordd gwahanol i'r hyn sy'n digwydd rwan - trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr hyd yn oed (cwestiwn 8).

Yn ail rhan cwestiwn 5, y bwriad oedd darganfod a fyddai'r pethau hyn yn cynyddu neu'n lleihau'r nifer o ymweliadau i'r goedwig. O gymharu â'r rhan gyntaf, nid yw'r cwestiwn wedi ei lenwi'n llawn gan lawer o bobl - yr oedd yn gadael naill ai yn wag, neu yn dangos na fyddai nifer yr ymweliadau'n newid. Gall fod hyn oherwydd y ffordd y mae'r cwestiwn wedi ei osod yn ddryslyd, gan ei fod yn ymddangos fel petai'n gofyn yr un peth ddwywaith, neu oherwydd bod pobl oedd eisoes yn ymweld â'r goedwig mor aml ag y dymunant. Gellir darllen Siart 7 yn yr un ffordd â Siart 6, mae bariau glas hirach yn golygu y byddai mwy o ymweliadau, tra bod bariau melyn yn golygu y byddai llai. At ei gilydd, mae'r canlyniadau yn debyg i'r disgwyl; byddai mwy o bobl yn ymweld â'r goedwig os yw'r newidiadau mwyaf poblogaidd a lleiaf dadleugar yn digwydd. Mae'r rhain yr un fath â'r rhai newidiadau yn Siart 6, oedd am wneud y goedwig yn "well", ac mae'r rhan fwyaf yn ymwneud â gwneud y goedwig yn fwy naturiol.


Siart 7: Pe bai ... Byddwn yn defnyddio'r goedwig ...



Cwestiwn 6: A oes unrhyw un o'r canlynol yn gwneud i chi fwynhau'r goedwig lai?

Gofynnwyd i bobl dicio'r pethau nad oeddynt yn eu hoffi am y goedwig ar restr fach. Ymddangosodd nifer o bethau a gododd yn Cwestiwn 4 eto, ond y tro hwn gallwn gyfri beth yw cas bethau pobl, fel a ddangosir yn Siart 8. Yn ôl egwyddor "triangli" yn y gwyddorau cymdeithasol, gallwn fod yn fwy hyderus fod ein casgliadau'n gywir os ydym yn cael yr un atebion o ofyn yr un peth mewn ffordd gwahanol. Yma, gwelsom mai sbwriel, fandaliaeth a baw cŵn yw'r pethau y mae pobl yn eu casau, pob un yn rhwybeth sy'n dangos diffyg parch at yr amgylchedd a mwynhad defnyddwyr eraill. Mae sŵn hefyd yn amhoblogaidd, ond dim ond ychydig o bobl oedd yn gwrthwynebu gwaith coedwigaeth, gan fod y rhelyw yn cydnabod ei fod yn rhan o'r hyn a ddylai ddigwydd mewn coedwig hyd yn oed os yw'n swnllyd ac aflonyddol pan fydd yn digwydd. Ysbwriel a beiciau modur oedd yn codi gwrychyn fwyaf.

Siart 8: Pethau sy'n lleihau mwynhad pobl o'r goedwig



Pethau eraill ysgrifennodd pobl am gwestiwn 6:

Diffyg biniau baw cŵn (rhaid edrych lle'r wyt yn mynd)

Angen gwneud mwy i'r gymuned

Achos tydach chi ddim yn gofyn i'r gymuned yn iawn

Cwm heb fod ar dennyn

Hapus i gerdded mewn coedwig gweithgar

Ddim y cwm eu huain?[sic]

Cwestiwn 7: A yw'r goedwig yn le diogel a chroesawgar? Pam?

Fel awgrymwyd yn Cwestiwn 4, mae pobl yn Nhregarth yn ystyried y goedwig fel rhywle anghyfarwydd ac ychydig yn frawychus. Mae'r cwestiwn hwn yn uniongyrchol i bobl ystyried eu hymateb cyffredinol i'r goedwig fel lle i ymweld ag o. Mae canlyniadau'r cwestiwn hwn yn ganlyniad hynod ddiddorol gan ei fod yn awgrymu bod pobl Tregarth yn anghyfarwydd â'r goedwig a tua 40% o bobl yn ei weld fel lle nad yw'n ddiogel neu groesawgar. Wrth edrych ar y sylwadau, roeddem yn meddwl y gall hyn fod oherwydd y gall bobl teimlo'n anniogel oherwydd y gallent fynd ar goll gan nad ydynt yn gyfarwydd â'r lle, neu efallai y gallai blociau conwydd tywyll, anghyfarwydd, cuddio peryglon anhysbys, neu yn syml y gall fod dieithriad yno. Beth bynnag yw'r rheswm, mae'n ymddangos efallai y bydd angen i bobl gael sicrwydd bod y goedwig yn ddiogel cyn i bobl fentro i fyny'r bryn i grwydro'n y goedwig.

Siart 9: A yw'r goedwig yn le ddiogel a chroesawgar?




Pam? Sylwadau gan bobl a ddywedodd fod y goedwig yn ..

Ddiogel a chroesawgar	DIM yn ddiogel a chroesawgar
Achos nid oes digon o bobl yn ei ddefnyddio	Dim goliadau yno
Distaw – golygfeydd da	Eithaf croesawgar
Mae'n gynefin hardd	Yn rhy ddiflas
Llonydd ac amser distaw	
Neb yna yn aml	
Mannau agored	
Heddychlon a naturiol	
Quiet and peaceful	
Diogel, ie, ond sut all goedwig fod yn groesawgar?	

Cwestiwn 8: A fydddech yn fodlon gwirfoddoli?

This question was included so we could get some idea of whether there are people in the village who might volunteer to help do things in the forest. Cawsom ein synnu wrth ddarganfod bod 30% o'n sampl (o 51) wedi ticio'r blwch i ddweud y byddent yn barod helpu gyda gwaith ymarferol yn y goedwig. Rydym yn dyfalu o gwestiynau cynharach bod yr hyn sydd gan y rhan fwyaf o bobl mewn golwg, mae'n debyg, yw gwaith sy'n ymwneud â rheoli cynefinoedd neu welliannau i lwybrau cerdded ac ati. Mae yna hefyd bobl sy'n barod i helpu cynnal digwyddiadau a chodi arian. Roedd awgrymiadau eraill a wnaed: trefnu gweithgareddau gwirfoddoli i bobl ifanc, a chodi sbwriel. Mae'n galonogol iawn bod pobl yn fodlon helpu gwneud rhywbeth cadarnhaol yn y goedwig.

Siart 10: A fydddech yn fodlon ...



Cwestiwn 9: Pe allech newid un peth am y goedwig, beth bydddech yn ei newid?

Roedd hwn yn gwestiwn agored arall, lle gallai pobl awgrymu y pwysicaf y byddent yn hoffi ei weld yn digwydd yn y goedwig. gwnaeth 17 o bobl awgrymiadau, ac rydym wedi eu grwpio i dri categori. Mae'r grŵp mwyaf yn ymwneud â gwella mynediad i'r goedwig - trwy ddarparu arwyddbyst a sefydlu llwybrau newydd a datblygu llwybrau beiciau mynydd, gan gynnwys goleddf. Fodd bynnag, fel y dangosir yng Nghwestiwn 5, nid yw llawer o'r awgrymiadau hyn yn cael eu cefnogi gan bawb, ac fe fyddai angen cynllunio gofalus a thrafodaeth er mwyn sicrhau nad yw dymuniadau un garfan yn amharu mwynhad pobl eraill.

Mae'r ail grŵp o awgrymiadau yn ymwneud â choedwriaeth, sef y tyfu'r coed sy'n ffurfio'r goedwig. Byddai pobl yn hoffi gweld y goedwig yn newid (yn raddol) fel fod yna fwy o olau a llennyrch (mannau agored), mwy o rywogaethau gwahanol a choed cynhenid a mwy o fywyd gwyllt. Mae gwerthfawrogiad o natur yn thema gref yn yr ymgynghoriad cyfan, ac mae nifer o bobl yn fodlon gwirfoddoli i wneud i hyn ddigwydd a gall hefyd ddarparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth lleol. Fel a ddangosir yng Nghwestiwn 5, byddai'r rhan fwyaf o'r awgrymiadau hyn yn cael ei groesawu gan bobl yn Nhregarth, ond gall fod yn fwy o broblem ar gyfer y Comisiwn Coedwigaeth, fel y byddai angen mwy o newidiadau yn y ffordd y maent yn rheoli'r goedwig.

Mae'r trydydd grŵp yn ymwneud â chyfleusterau, megis gosod biniau sbwriel a meinciau yn y coetir (neu mewn un achos, yn y pentref). Fel yr ydym wedi gweld yn gynharach (Cwestiwn 5) mae'r rhain yn awgrymiadau dadleuol a byddai angen eu ystyried yn ofalus. Byddai Biniau yn

benodol dim ond yn gweithio os oes rhywrai yn ymrwymo i'w cynnal a'u gwagio.

Mynediad

Beicio moduron mewn un lle pendant
Cael mwy o arwyddion yn dangos beth sydd yny goedwig
Sefydlu llwybrau cerdded
Fwy hygyrch i bobl ifanc
Mwy o draciau beicio
Arwyddion!
Arwyddo a graddio llwybrau beicio mynydd
Goleddf ar gyfer beicwyr mynydd

Coedwriaeth

Byddai gwell amrywiaeth o goed yn fonws mawr
Datblygu llwybrau beic mynydd / marchogaeth cylchol
Rheolaeth - i edrych ar ei hôl mewn ffordd gyfrifol
Mwy o goed dail llydan

Cyfleusterau

Biniau baw ci
Hoffwn lefydd i eistedd
Meinciau
Na swn
Rhoi goliadau yno

Ein hymateb ni i'r canlyniadau

Rydym yn falch iawn fod pobl yn cymryd ein holiadur o ddifrif ac yn ei gwblhau, a chawsom rhywfaint o wybodaeth dda o'r astudiaeth. Cawsom ein synnu braidd gan y canlyniadau, gan nad oeddem yn meddwl bod llawer o bobl Tregarth yn defnyddio'r goedwig, er ein bod wedi gweld fod nifer nad ydynt yn gwybod fod y goedwig yno hyd yn oed.

Mae yna lawer o wybodaeth yn yr holiaduron, a llawer i feddwl amdano, ond rydym wedi adnabod rhai materion allweddol a rhai awgrymiadau ynglŷn â phethau gallwn ei wneud yn y goedwig er lles pobl Tregarth.

Crynodeb o'r canlyniadau pwysicaf

- Mae o 74% o'r 51 a lenwodd yr holiadau yn ymweld â'r goedwig yn "achlysurol" o leiaf. O'i gymharu â Mynydd Llandygai a Rhiwlas, mae'r niferoedd hyn yn isel - nid yw hyn yn syndod gan fod Tregarth yn bellach o'r goedwig.
- Er bod y mwyafrif (64%) yn teimlo bod y goedwig yn le diogel a chroesawgar, mae yna nifer sy'n teimlo ei fod yn le brawychus a di-groeso. Eto, diffyg adnabyddiaeth o'r goedwig sydd wrth wraidd hyn mae'n debyg.
- yn ôl 80% o'r holiaduron, mae'r goedwig yn le da neu ardderchog, sy'n awgrymu bod lle i wella.
- Most people who visit the forest go there for a walk (95%) though 18% go to ride mountain bikes, 13% run and one person rides a horse. O gymharu â'r pentrefi sy'n agosach i'r

goedwig, mae canran uwch yn gwneud pethau heblaw cerdded yn y goedwig.

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwerthfawrogi'r goedwig fel lle tawel, heddychlon a naturiol.
- Cas bethau pobl yn y goedwig yw sbwriel, baw cŵn, fandaliaeth a sŵn.
- O ran gwella cynefinoedd bywyd gwyllt, mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo y byddai hyn yn welliant, ac nid oes neb yn teimlo y byddai hyn yn gwneud y goedwig yn waeth.
- Byddai gadael i goed tyfu'n fwy hefyd yn welliant yn ôl llawer, ac yn codi gwrychyn neb.
- Hoffai beicwyr mynydd weld mwy o gyfleusterau beicio, ond mae nifer sylweddol sy'n meddwl y byddai hyn yn gwneud y goedwig yn le gwaeth, a byddent yn llai tebyg o ymweld â'r lle os oedd mwy o feiciau yno. Byddai datblygu beicio a phethau eraill y mae rhai pobl yn eu gwrthwynebu angen cynllunio gofalus, a rhannu'r goedwigoedd yn ardaloedd arwahanol o bosib.
- Mater cymhleth yw lle cŵn yn y goedwig; mae nifer o bobl yn dweud eu bod yn hoffi mynd â'u cŵn i'r goedwig fel y gallant rhedeg heb dennyn. Byddai rhai pobl yn hoffi i bobl sy'n symud yn gyflym (ar feic neu wrth rhedeg) yn arafu ar gyfer cŵn, tra nad yw beicwyr yn dymuno gweld cŵn heb dennyn, oherwydd gallant fod yn beryglus. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn hoffi baw cŵn. Mae mynd â chŵn am dro yn ddefnydd ymarferol a phriodol o'r goedwig, ond gall fod angen trafodaeth a chytundeb rhwng perchnogion cŵn ac ymwelwyr eraill i'r goedwig.
- Mae rhai gweithgareddau fel beiciau modur a beiciau cwad ill ddau yn amhoblogaidd o achos sŵn, ac er y byddai'n dda i ddod o hyd i rywle ar gyfer hyn mae'n debyg na all fod yn y goedwig.
- Mae nifer o bobl a ddywedodd y byddent yn fodlon gwirfoddoli er mwyn helpu gweithgareddau yn y goedwig, gyda'r rhan fwyaf yn cymryd diddordeb mewn prosiectau cadwraeth ymarferol.

Awgrymiadau

Mae gennym hefyd nifer o syniadau a fyddai'n helpu annog mwy o bobl o Dregarth i fentro ar y daith i fyny'r allt i ymweld â'r goedwig:

- Codi ymwybyddiaeth fod y goedwig yno
- Gwnewch y goedwig yn lle nodedig drwy osod arwyddbyst
- Byddai gwella potensial bywyd gwyllt y goedwig, yn ei wneud yn fwy apelgar fel lle i ymweld ag o (er enghraifft, meddyliwch am fwydo'r barcutiaid coch ym Mwlch Nant yr Arian)

Beth nesaf?

Mae yna bethau y gellid eu gwneud er mwyn manteisio ar y diddordeb a gododd yn yr holiadur. Dylai'r rhain godi o'r cyfarfod cyhoeddus (lle byddem yn cyflwyno'r canlyniadau hyn), ond fe fydd angen rhagor o gyfarfodydd yn sicr, a chytundebau a cheisiadau gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, pentrefi eraill sy'n agos i'r goedwig a phobl eraill sy'n defnyddio'r goedwig.